Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gwybodaeth ar gyfer Rheolwr y Lleoliad Cyn Ysgol

Bob blwyddyn mae imiwneiddio'n achub mwy o fywydau ledled y byd nag unrhyw ymyriad meddygol arall. Yng Nghymru, mae imiwneiddio yn ffordd allweddol o gadw plant yn iach a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt. Dyna pam rydym yn awyddus i'ch helpu i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid pob plentyn sy'n mynychu eich lleoliad cyn ysgol wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y brechiadau imiwneiddio y dylai eu plentyn fod wedi'u cael, a pham rydym yn annog pob plentyn a staff i gael eu himiwneiddio'n llawn.

Gall meithrinfeydd a lleoliadau cyn ysgol chwarae rôl werthfawr yn y gwaith o atal achosion o glefydau y gellir eu hatal drwy frechlyn drwy hyrwyddo brechu plant gan gynnwys holi cwestiynau am statws brechu'r plentyn yn ystod y drefn gofrestru.

Dylai rhieni/gwarcheidwaid gael eu hannog i sicrhau bod eu plant wedi cael yr holl frechiadau arferol diweddaraf er lles eu plentyn, ac eraill yn y lleoliad cyn ysgol. Dylid ystyried hyn yn rhan sylfaenol o'r gwaith o reoli heintiau. Byddem hefyd yn eich annog i gadw cofnod o statws imiwneiddio eich staff gan y bydd hyn yn helpu i'w hamddiffyn nhw a'r plant yn eich gofal. Rydym yn argymell bod pob aelod o staff cymwys yn manteisio ar y cynnig o frechiad COVID-19. Mae rhagor o wybodaeth am y brechiad COVID-19 ar gael yn: icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19. Os ydych yn nodi eich bod wedi colli rhai brechiadau, efallai y byddwch am lunio cynllun gweithredu gyda'r aelodau o staff ac ailedrych ar hyn pan fyddwch yn cynnal eich adolygiadau staff.

Byddai mynediad at statws imiwneiddio plant a staff yn eich lleoliad cyn ysgol yn caniatáu i weithwyr iechyd proffesiynol ymateb yn gyflym ac yn effeithlon petai achosion o'r clefyd yn codi.

Mae'r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy, sef fframwaith ar gyfer hybu iechyd a chynaliadwyedd mewn lleoliadau cyn ysgol, wedi cael ei ymgorffori ledled Cymru. Un o nodau allweddol y cynllun yw lleihau'r risg o glefydau drwy imiwneiddio plant a staff, ac mae'r pecyn adnoddau hwn wedi'i lunio i helpu'r lleoliadau i gyrraedd y safonau.

Mae'r pecyn adnoddau imiwneiddio cyn ysgol yn cynnwys llythyrau templed ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid a staff sy'n cynnwys rhestr wirio fer i gofnodi statws imiwneiddio a gwybodaeth am gysylltiadau defnyddiol.

Gellir archebu taflenni a phosteri imiwneiddio a'u llwytho i lawr o icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/adnoddau-gwybodaeth-iechyd

Mae rhagor o wybodaeth am hyrwyddo brechu yn eich lleoliad cyn ysgol ar gael gan eich Cydgysylltydd Imiwneiddio yn eich Bwrdd Iechyd lleol neu gallwch gysylltu â'ch Ymwelydd Iechyd penodol. Mae gwybodaeth am Atal a Rheoli Heintiau ar gael gan phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/nipcm/chapter-1-standard-infection-control-precautions-sicps.

Diolch i chi am eich cefnogaeth i sicrhau bod y plant yn eich gofal wedi cael yr holl frechiadau diweddaraf.